# Ffurflen Gais
# Taliadau Tai Yn Ôl Disgresiwn (Taliad Tai Yn Ôl Disgresiwn)

VALE of GLAMORGAN
BRO MORGANNWG

**Rhif hawliad**

Mae Taliadau Tai Yn Ôl Disgresiwn ar gael i ddarparu cymorth ychwanegol gyda chostau rhent pan na fydd Costau Tai neu Gostau Tai Credyd Cynhwysol yn talu'r tâl rhent llawn. Dyfernir Taliadau Tai Yn Ôl Disgresiwn o gronfa gyfyngedig a dim ond os ydym yn fodlon eich bod angen cymorth ariannol ychwanegol gyda'ch costau tai y gellir eu dyfarnu.

**Bydd unrhyw ddyfarniadau a wneir am gyfnod cyfyngedig (fel arfer hyd at uchafswm o 6 mis), er mwyn rhoi amser i chi wneud trefniadau amgen tymor hwy.**

- **Ni ellir** defnyddio Taliadau Tai Yn Ôl Disgresiwn i dalu am wasanaethau nad ydynt yn gymwys ar gyfer Budd-dal Tai.
- **Ni ellir** defnyddio Taliadau Tai Yn Ôl Disgresiwn i dalu treth cyngor.
- **Ni ellir** defnyddio Taliadau Tai Yn Ôl Disgresiwn i dalu ôl-ddyledion rhent.
- **Ni ellir** dyfarnu Taliadau Tai Yn Ôl Disgresiwn oni bai eich bod yn derbyn naill ai Budd-dal Tai neu Elfen Tai y Credyd Cynhwysol.

Er mwyn gwneud penderfyniad, mae angen i ni asesu eich sefyllfa ariannol a'ch amgylchiadau. I'n helpu i wneud hyn, bydd angen i chi gwblhau'r ffurflen gais ac ateb **pob** cwestiwn. **Caiff y wybodaeth a ddarperir i ni ei thrin yn gyfrinachol.**

Os nad ydych yn ateb pob cwestiwn ar y ffurflen hon, efallai y bydd rhaid i ni ysgrifennu atoch am wybodaeth bellach a allai ohirio ein penderfyniad. Os nad ydych chi'n ateb yr holl gwestiynau'n llawn, efallai y byddwn yn gwrthod eich dyfarniad. Os bydd angen mwy o wybodaeth a thystiolaeth ategol arnom, byddwn yn ysgrifennu atoch.

**Efallai y bydd angen i chi ddarparu tystiolaeth ddogfennol o unrhyw incwm a gwariant a ddatganwyd ar eich ffurflen. Efallai y bydd gofyn i chi hefyd ddarparu tystiolaeth o unrhyw gyflyrau meddygol y teimlwch y mae angen eu hystyried, wrth edrych ar eich cais.**
***Os ydych yn hawlio Credyd Cynhwysol, bydd angen i chi ddarparu prawf o'ch rhent.***

## Rhan 1 – Manylion amdanoch chi -

Enw llawn

Dyddiad geni

Rhif Yswiriant Gwladol

Cyfeiriad

Ffôn

E-bost

**Rhan 2 – Rheswm dros wneud cais**

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Cyfyngiadau maint sector cymdeithasol ('treth ystafell wely') | Ie | ☐ | Na | ☐ |
| Cyfraddau'r Lwfans Tai Lleol | Ie | ☐ | Na | ☐ |
| Cap Budd-dal | Ie | ☐ | Na | ☐ |
| Incwm | Ie | ☐ | Na | ☐ |
| Didyniadau pobl nad ydynt yn ddibynnol (oedolion eraill sy'n byw gyda chi) | Ie | ☐ | Na | ☐ |

Cadarnhewch unrhyw resymau eraill sydd gennych dros wneud cais am Daliadau Tai Yn Ôl Disgresiwn:

Am faint o amser ydych chi eisiau gwneud cais am gymorth?

Os yw hyn am fwy na chwe mis, eglurwch eich rhesymau.

Os ydych eisiau hawlio Taliadau Tai Yn Ôl Disgresiwn am gyfnod cyfyngedig, rhowch fanylion:

Gan mai dim ond fel ateb tymor byr y gellir talu Taliadau Tai Yn Ôl Disgresiwn, cadarnhewch isod y camau yr ydych yn eu cymryd i ddatrys y mater.

☐ Chwilio am waith ☐ Chwilio am lety arall

☐ Chwilio am gyd-denant/ lletywr ☐ Arall (nodwch isod)

Mae angen i chi fod yn hawlio Budd-dal Tai yn yr awdurdod lleol lle rydych chi'n byw ar hyn o bryd i wneud cais am y math hwn o Daliad Tai Yn Ôl Disgresiwn. (Felly os ydych chi'n byw yn y Barri ac yn adleoli i Gaerdydd, bydd angen i chi wneud cais i Gyngor Bro Morgannwg am eich Taliad Tai Yn Ôl Disgresiwn).

Gallwn eich helpu mewn dwy ffordd:

- Taliad untro os ydych am adleoli neu symud i gartref llai
- Taliad tymor hwy i'ch helpu gyda diffyg yn eich rhent

**Ticiwch y blwch priodol:**
**Help gyda diffyg yn eich rhent** ☐ **Taliad untro** ☐

**Os ydych chi'n symud ac angen help tuag at gostau symud, fel blaendal rhent neu gostau cludiant symud, atebwch y cwestiynau canlynol. Byddwch yn ymwybodol y telir yn uniongyrchol i'ch landlord newydd neu'ch cwmni symud.**

Cadarnhewch y dyddiad y bwriadwch symud: ☐

Cadarnhewch y cyfeiriad llawn lle rydych chi'n bwriadu symud:

☐

Am ba gostau symud ydych chi'n gofyn am help? (E.e. blaendal, costau symud, y ddau). Os ydych angen cwmni symud ac nid llogi fan yn unig, rhowch wybod pam.

☐

**SYLWER - RYDYM ANGEN TRI AMCANGYFRIF / DYFYNBRIS GAN GWMNÏAU SYMUD CYN Y GALLWN WNEUD PENDERFYNIAD AR EICH TALIAD TAI YN ÔL DISGRESIWN O RAN COSTAU SYMUD.**

Os ydych chi'n gofyn am help gyda blaendal, pam nad yw eich landlord wedi ad-dalu'r blaendal ar gyfer eich eiddo presennol?

☐

A ydych wedi gofyn i unrhyw sefydliadau eraill neu unrhyw un arall am help gyda'ch costau symud? Do ☐ Na ☐

Os na, pam? Os ydych, i bwy wnaethoch chi ofyn, a beth oedd y canlyniad?

☐

Pam ydych chi angen symud?

☐

**Rhan 4 - Ynglŷn â'ch incwm**
Rhestrwch isod yr holl incwm yr ydych chi a/neu eich partner yn ei dderbyn

- **Budd-daliadau -** Credyd Cynhwysol, Cymhorthdal Incwm, Lwfans Ceisio Gwaith, Lwfans Cymorth Cyflogaeth, Credyd Treth Plant, Credydau Treth Gwaith, Lwfans Byw i'r Anabl, Taliadau Annibyniaeth Bersonol, Lwfans Gweini ac ati.
- **Pensiynau** - Pensiwn Ymddeol y Wladwriaeth, pensiynau galwedigaethol, pensiynau preifat, blwydd-daliadau, Credyd Pensiwn, pensiynau anabledd, pensiynau rhyfel.
- **Enillion** - enillion cyflog, enillion hunangyflogaeth, tâl salwch statudol, tâl mamolaeth statudol, tâl tadolaeth statudol, tâl mabwysiadu statudol.
- **Incwm arall** - breindaliadau, lwfans maethu, lwfans gwarcheidwaid.

**Dylech nodi nad yw Taliadau Annibyniaeth Personol, y Lwfans Byw i'r Anabl a'r Lwfans Gweini yn cael eu hystyried yn incwm pan fyddwn yn cyfrifo eich Taliad Tai yn ôl Disgresiwn. Fodd bynnag, rydym yn holi amdanynt er mwyn sicrhau ein bod yn deall eich amgylchiadau yn iawn.**

| Math o Incwm | Swm | Amlder - wythnosol/misol |
|---|---|---|
| | | |
| | | |
| | | |
| | | |

**Os ydych yn disgwyl clywed am fudd-dal neu incwm rydych wedi'i hawlio'n ddiweddar, rhowch wybod i ni beth ydyw a phryd y gwnaethoch gais amdano.**

| |
|---|
| |

A yw unrhyw rai o'r Budd-daliadau a dderbyniwch yn cael ei talu ar lefel ostyngedig?

Ydyn ☐ Nac ydyn ☐

Os ydynt, a wnewch chi gadarnhau pa fudd-dal sydd wedi'i ostwng a phryd?

| |
|---|
| |

Ar ba ddyddiad y dechreuwyd tynnu'r arian a phryd y disgwylir y bydd hyn yn dod i ben?

| |
|---|
| |

Faint o arian sy'n cael ei dynnu a pha mor aml? E.e. £10 yr wythnos.

| |
|---|
| |

Bydd angen i chi gyflwyno tystiolaeth mewn cysylltiad ag unrhyw arian sy'n cael ei dynnu ar hyn o bryd.

**Rhan 5 – Am incwm unrhyw oedolion eraill yn yr eiddo**
Rhestrwch yr incwm ar gyfer unrhyw oedolyn arall sy'n byw yn eich cartref. Mae hyn yn cynnwys unrhyw blant sy'n oedolion, aelodau eraill o'r teulu, neu ffrindiau sydd wedi'u cynnwys yn eich cais.

| Math o incwm | Swm | Amlder (wythnosol / misol ayb) | Perthynas â chi (e.e. mab, mam) |
|---|---|---|---|
| | | | |
| | | | |
| | | | |
| | | | |
| | | | |

Faint mae oedolion eraill yn eich cartref yn ei gyfrannu at y rhent?

Os nad yw'r oedolion eraill yn cyfrannu at y rhent, eglurwch pam.

**Rhan 6 - Am eich cyfalaf, cynilion a buddsoddiadau**

Rhestrwch isod yr holl gyfalaf sydd gennych chi a/ neu eich partner.

Mae cyfalaf yn cynnwys:
- Arian
- Arian a gedwir mewn cyfrif banc, Swyddfa Bost neu gymdeithas adeiladu.
- Bondiau, stociau, cyfranddaliadau ayb
- Eiddo

Rhowch werth y cynilion a'r buddsoddiadau hyn:

| Math | Swm |
|---|---|
| | |
| | |
| | |
| | |
| | |
| | |

Cadarnhewch gyfeiriad unrhyw eiddo arall yr ydych yn berchen arno:

| |
|---|
| |

Os ydych chi'n berchen ar unrhyw eiddo, efallai byddwn angen rhagor o wybodaeth gennych chi.

**Rhan 7 – Am gyfalaf unrhyw oedolion eraill yn yr eiddo**

Rhestrwch holl fanylion cyfalaf unrhyw oedolion eraill sy'n byw yn eich cartref. Mae hyn yn cynnwys unrhyw blant sy'n oedolion, aelodau eraill o'r teulu, neu ffrindiau sydd wedi'u cynnwys yn eich cais.

| Enw | Math | Swm |
|---|---|---|
| | | |
| | | |
| | | |
| | | |

## Rhan 8 – Am eich gwariant

Nodwch faint ar gyfartaledd rydych chi a'ch teulu yn ei wario ar y canlynol:

| Math | Swm | Amlder | Os yw'r taliad yn uwch na'r arfer, cadarnhewch pam (e.e. ôl-ddyledion). |
|---|---|---|---|
| **Rhent** | | | |
| **Siopa (bwydydd / pethau ymolchi ayb)** | | | |
| **Yswiriant:**<br>**Yswiriant cartref**<br><br>**Yswiriant bywyd**<br><br>**Yswiriant symudol** | | | |
| **Cyfraddau dŵr** | | | |
| **Nwy** | | | |
| **Trydan** | | | |
| **Ffôn / band eang:**<br>**Ffôn Symudol**<br><br>**Llinell dir**<br><br>**Rhyngrwyd** | | | |
| **Trwydded Deledu** | | | |
| **Teithio (nodwch)** | | | |
| **Car:**<br>**Petrol**<br><br>**Yswiriant**<br><br>**Treth ffordd**<br><br>**Arall** | | | |
| **Dillad (gan gynnwys unrhyw eitemau dillad arbennig)** | | | |
| **Arall (rhowch fanylion)** | | | |
| **Arall** | | | |

| (rhowch fanylion) | | | |
|---|---|---|---|

Os oes gennych becyn Sky, Virgin neu deledu digidol arall, cadarnhewch a ydych chi'n dal i fod o fewn eich contract 12 mis. Os ydych chi, cadarnhewch y dyddiad y cafodd ei ffurfio, a faint o amser sydd ar ôl ar y contract. Cadarnhewch os ydych chi wedi trafod diraddio'r pecyn i'r un isaf, neu os ydych chi wedi edrych ar ddarparwyr eraill fel Freeview.

| |
|---|
| |

Os oes gennych gontract ffôn symudol, cadarnhewch y dyddiad y cafodd ei ffurfio a hyd y contract. Cadarnhewch os ydych wedi trafod tariff rhatach neu os ydych chi'n defnyddio 'talu wrth ddefnyddio'.

| |
|---|
| |

Esboniwch p'un a allwch chi leihau unrhyw un o'ch treuliau neu wariant arall. Os na allwch, eglurwch pam.

| |
|---|
| |

A oes gennych chi, neu aelod o'ch cartref, ffrindiau neu deulu a allai roi cymorth ariannol i chi? Oes ☐ Na ☐

Rhowch fanylion:

| |
|---|
| |

A oes gennych chi neu eich teulu unrhyw fenthyciadau/ dyledion yr ydych yn talu tuag atynt ar sail reolaidd? Oes ☐ Na ☐

Rhowch fanylion am y ddyled / benthyciad.

| |
|---|
| |

Rhowch fanylion:

| Math o fenthyciad neu ddyled | Swm a ad-dalwyd | Wythnosol / misol | Dyled pwy yw hon? | Dyddiad cychwyn | Yn dod i ben |
|---|---|---|---|---|---|
| **Benthyciadau** | | | | | |
| **Catalog** | | | | | |
| **Hurbrynu** | | | | | |
| **Cardiau Siop** | | | | | |
| **Arall (Nodwch)** | | | | | |
| **Arall (Nodwch** | | | | | |

A ydych wedi ceisio trafod telerau talu is gyda'ch credydwyr ar gyfer unrhyw ddyled? Do ☐ Na ☐

Os Do, rhowch fanylion neu unrhyw drefniant sydd yn ei le.
Os Na, cadarnhewch pam nad ydych wedi ceisio trafod gyda'ch credydwyr.

A ydych wedi ceisio cyngor ar ddyledion? Do ☐ Na ☐
(Gallai hyn fod gyda chynghorydd dyled fel Cyngor ar Bopeth)

Os Do, rhowch fanylion am y cyngor a gawsoch am ddyledion (e.e. cynllunydd cyllideb neu apwyntiad ar gyfer cyngor ar ddyledion)

## Rhan 9 – Am eich iechyd a'ch cartref

A ydych chi, neu unrhyw aelod o'ch cartref, yn dioddef o unrhyw anableddau neu broblemau iechyd? Ydw ☐ Na ☐

Os ydych, rhowch fanylion.

A ydych chi, neu aelod o'ch cartref, gydag unrhyw gyflyrau iechyd neu anghneion arbennig sydd angen eu hystyried wrth chwilio am lety? Ydw ☐ Na ☐
(Er enghraifft, llety llawr gwaelod ar gyfer mynediad i gadeiriau olwyn).

Os ydych, rhowch fanylion.

A yw eich eiddo wedi cael ei addasu neu ei newid mewn unryw ffordd i gynnwys anabledd? Ydyw ☐ Na ☐

Os ydyw, rhowch fanylion.

A ydych chi'n derbyn gofal dros nos yn rheolaidd? Ydw ☐ Na ☐

Os ydych, rhowch fanylion am bwy sy'n darparu eich gofal, pa mor aml y darperir y gofal (h.y. pa mor aml y mae'n rhaid i'r darparwr gofal aros dros nos), a natur y gofal sydd ei angen arnoch.

Os na all eich plant rannu ystafell wely oherwydd anabledd neu anghenion arbennig, rhowch fanylion isod. Dylech hefyd gynnwys manylion unrhyw ofal dros nos a pha mor aml y mae ei angen.

A ydych chi'n ofalwr maeth cofrestredig? Ydw ☐ Na ☐

Os felly, cadarnhewch faint o blant maeth sy'n byw gyda chi ar hyn o bryd ac os yn bosibl, cadarnhewch eu henwau.

| |
|---|
| |

Cadarnhewch unrhyw newidiadau diweddar neu rai sydd ar y gweill sy'n effeithio arnoch chi neu aelod o'ch cartref y dylem eu hystyried, e.e. gorffen/dechrau gwaith, profedigaeth, perthynas yn chwalu, llawdriniaeth, ayb.

| |
|---|
| |

Defnyddiwch y blwch hwn i ddweud wrthym unrhyw beth arall y credwch y dylem ei ystyried pan fyddwn yn gwneud ein penderfyniad.

| |
|---|
| |

**Rhan 10 – Am eich cartref a'ch rhent**

Cadarnhewch faint o rent
a godir arnoch a pha mor aml: ☐ bob ☐

Os ydych yn denant preifat, a ydych wedi gofyn i'ch landlord
ostwng eich rhent? Do ☐ Na ☐

Os Do, beth oedd yr ymateb? Os Na, pam?

☐

Pryd mae'ch tenantiaeth i fod i ddod i ben? ☐

A oes gennych ôl-ddyledion rhent? Oes ☐ Na ☐

A ydych chi'n gwneud trefniadau i'w talu? Ydw ☐ Na ☐

Os felly, faint? ☐

Rhowch fanylion am unrhyw gamau a gymerwyd gan eich landlord i adennill yr ôl-ddyledion hyn.

☐

A allech chi fforddio'ch rhent pan symudoch chi i mewn? Gallwn ☐ Na ☐

Os Na, pam wnaethoch chi symud i'r llety hwn?
Os allech chi, pam na allwch chi bellach fforddio'r diffyg yn eich rhent?

☐

A ydych chi wedi ceisio trafod rhent is
gyda'ch landlord? Do ☐ Na ☐

Os felly, beth oedd yr ymateb i'ch cais?
Os Na, eglurwch pa, nad ydych wedi mynd at eich landlord i drafod eich rhent.

☐

A ydych wedi ceisio dod o hyd i lety arall rhatach? Do ☐ Na ☐

Os Na, eglurwch pam.

☐

A ydych ar restr dai Homes4U? Ydw ☐ Na ☐

A ydych chi'n disgwyl i gael eich ailgartrefu gan unrhyw landlord cymdeithasol e.e. Cyngor Bro Morgannwg neu gymdeithas dai? Ydw ☐ Na ☐

Os ydych, cadarnhewch y sefydliad a'r dyddiad yr aethoch ar y rhestr.
Os Na, cadarnhewch p'un a fyddech yn ystyried gwneud cais i gael eich ailgartrefu.

Os ydych newydd symud i'r cyfeiriad hwn yn ddiweddar, rhowch eich rhesymau dros wneud hynny:

A ydych wedi derbyn Taliadau Tai Yn Ôl Disgresiwn yn flaenorol? Do ☐ Na ☐

Os felly, eglurwch pa gamau yr ydych wedi'u cymryd i wella'ch sefyllfa ers eich cais diwethaf. Er enghraifft: llai o daliadau, ad-daliadau dyled is wedi'u negodi.

Cadarnhewch enw eich landlord:

A yw eich landlord yn derbyn eich Budd-dal Tai neu gostau tai Credyd Cynhwysol? Ydyw ☐ Na ☐
Os yw, cadarnhewch fanylion talu eich landlord isod.
Os Na, cadarnhewch eich manylion talu eich hun isod.

**Rhan 11 - Taliad**
Telir eich Taliad Tai Yn Ôl Disgresiwn trwy drosglwyddiad BACS. Felly, cadarnhewch eich enw, rhif a chod didoli banc neu gymdeithas adeiladu. Ni allwn dalu i mewn i gyfrifon Swyddfa'r Post.

Ym mha enw neu enwau y mae'r cyfrif?

Enw llawn y banc neu'r gymdeithas adeiladu

Cod Didoli

Rhif y cyfrif

Rhif cofrestr y gymdeithas adeiladu (os yn berthnasol)

**Rhan 12 – Datganiad**

Os oes rhywun heblaw'r person sy'n gwneud cais wedi cwblhau'r ffurflen hon, dywedwch wrthym pam eich bod yn cwblhau'r ffurflen hon ar ran yr hawliwr

| |
|---|
| |

| | |
|---|---|
| Enw'r person a gwblhaodd y ffurflen | |
| Llofnod y person | |
| Perthynas i'r hawliwr | |
| Dyddiad | |

**Darllenwch y datganiad hwn yn ofalus cyn i chi ei lofnodi a'i ddyddio.**

Rwy'n deall y canlynol:

- Rwy'n deall os bydd unrhyw wybodaeth a roddaf yn anghywir y bydd yn rhaid i mi ad-dalu unrhyw Taliad Tai Yn Ôl Disgresiwn a ddyfarnwyd yn ôl i'r Cyngor. Rwy'n deall pe bawn i'n gwybod fy mod yn rhoi gwybodaeth anghywir y gallwn gael fy erlyn.
- Byddwch yn defnyddio'r wybodaeth a roddais i brosesu fy nghais am Daliad Tai Yn Ôl Disgresiwn. Gallwch wirio peth o'r wybodaeth gyda ffynonellau eraill o fewn y cyngor, swyddfeydd rhent, a chynghorau eraill.
- Gallwch ddefnyddio unrhyw wybodaeth a ddarperais mewn cysylltiad â hyn ac unrhyw hawliad arall am fudd-daliadau Nawdd Cymdeithasol yr wyf wedi'u gwneud neu y gallaf eu gwneud. Gallwch roi rhywfaint o wybodaeth i sefydliadau eraill y llywodraeth, os yw'r gyfraith yn caniatáu hyn.

***Gwn** fod rhaid i mi roi gwybod i'r Cyngor am unrhyw newidiadau yn fy amgylchiadau, a allai effeithio ar fy nghais am fudd-dal a/ neu fy nyfarniad o Daliad Tai Yn Ôl Disgresiwn, o fewn un mis calendr i'r newid ddigwydd.*

Rwyf yn **datgan** fod y wybodaeth a roddais ar y ffurflen hon yn gywir ac yn gyflawn.

| | |
|---|---|
| Llofnod yr hawliwr | |
| Dyddiad | |